

## DATGANIAD POLISI AMGYLCHEDDOL

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i Grŵp Prifysgol De Cymru. Mae'r grŵp yn cynnwys Prifysgol De Cymru (PDC), sydd â champysau ym Mhontypridd (Trefforest a Glyntaf), Caerdydd (yr Atriwm), a Dinas Casnewydd; yn ogystal â'r Coleg Merthyr Tudful a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Mae'r sefydliadau fu'n sylfaenwyr Prifysgol De Cymru wedi bod ynghlwm wrth addysg uwch ers mwy na 100 mlynedd ac mae Grŵp PDC yn parhau â'r ymrwymiad hwn ac yn cydnabod rôl rhanddeiliaid, staff, myfyrwyr ac ymwelwyr wrth ddiogelu'r amgylchedd yn ei holl weithgareddau ac ar draws ei holl safleoedd.


Mae'r Polisi Amgylcheddol hwn yn adlewyrchu nodau ac amcanion strategaethau rhanbarthol a sefydliadol y Grŵp, a strategaethau amgylcheddol Llywodraeth Cymru. Mae wedi'i gynllunio i gynorthwyo Llywodraeth Cymru wrth gyflawni ei chenhadaeth dros Gymru.

Wrth geisio cyflawni ei amcanion addysgol ac ymchwil, mae'r Grŵp yn derbyn ei gyfrifoldeb i leihau, lle bo'n bosibl, ei effeithiau negyddol ar yr amgylchedd. Er mwyn gwneud hyn, mae gan y Grŵp system Rheoli Amgylcheddol ardstyiedig i ISO 14001:2004. Mae'r cwmpas ond yn cynnwys swyddogaethau Ystadau a Chyfleusterau ar draws y grŵp ar hyn o bryd. Fodd bynnag, y nod yw ymestyn hyn i gwmpasu pob maes arall, boed yn rhai academiaidd neu'n rhai cymorth, cyn gynted ag sydd yn ymarferol bosibl. Mae'r Grŵp yn ceisio:

- Cynnal a gwella'r system a phrosesau rheoli amgylcheddol i sicrhau safonau amgylcheddol uchel.
- Lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol sylweddol y Grŵp sy'n deillio o ynni, dŵr, gwastraff, trafniadaeth, caffael, adeiladu ac adnewyddu, allyriadau a gollyngiadau, ymgysylltiad cymunedol a bioamrywiaeth. Bydd y Grŵp yn ystyried y risgiau a'r cyfleoedd sy'n dod o'r rhain.
- Codi ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith myfyrwyr, staff a phartïon eraill â diddordeb, darparu gwybodaeth ac arweiniad i'w helpu i gyflawni gwelliant parhaus ac uchafu perfformiad amgylcheddol y grŵp.
- Cadw at raglen gwelliant parhaus trwy amcanion a thargedau realistig.
- Monitro a rhoi adborth yn gyson ar gynnydd tuag at yr amcanion a'r targedau hyn.
- Bodloni gofynion yr holl ddeddfwriaeth amgylcheddol a dyletswyddau cydymffurfio perthnasol. Gweithio i fodloni gofynion ymrwymiedau penodol eraill sy'n berthnasol i'r grŵp, fel y Cynllun Rheoli Carbon, yr Ymrwymiad Lleihau Carbon a'r Cerdyn Sgorio Gwyrdd.
- Defnyddio adnoddau'n effeithiol trwy osgoi ymarferion gwastraffus.
- Lleihau ac atal llygredd lle bo'n ymarferol.
- Gweithio gyda chwsmeriaid / myfyrwyr, cleientiaid a phobl sy'n gweithio dan reolaeth y sefydliad a'u helpu i ddatblygu ymagwedd ofalgar tuag at ddiogelu'r amgylchedd.
- Annog ymwelwyr i lynu wrth brosesau amgylcheddol y grŵp.
- Mabwysiadu ymarferion cynaliadwy er mwyn adnabod a rheoli effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd datblygiadau at y dyfodol a thwf o fewn y Grŵp.
- Cynnal archwiliadau ac adolygiadau rheolaidd i sicrhau bod gofynion y polisi amgylcheddol, y Strategaeth a'r system reoli yn cael eu cyflawni.
- Ceisio ystyried y Strategaeth Amgylcheddol mewn penderfyniadau presennol a phenderfyniadau at y dyfodol o ran persbectif cylch bywyd.

Bydd y polisi hwn ar gael trwy'r fewnwyd i Fyfywrwyr a Staff a phartïon eraill sydd â diddordeb. Bydd y polisi ar gael i bobl sy'n gweithio ar ran y Grŵp trwy'r ymsefydliad diogelwch safle.

Llofnod: \_\_\_\_\_



Dyddiad: \_\_\_\_\_

18/7/16

Yr Athro Julie Lydon  
Is-Ganghellor